

# Canllawiau ar ymateb yn dda i oroeswyr/ dioddefwyr camdriniaeth

## 1. Cyflwyniad

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o bobl wedi datgelu ac adrodd am gamdriniaeth ddiweddar a hanesyddol. Mae yna hefyd ffocws sylweddol ar sut mae sefydliadau, gan gynnwys eglwysi, wedi ymateb i oroeswyr a dioddefwyr camdriniaeth. Yn anffodus, bu tystiolaeth bod yr eglwys yn aml wedi lleihau, gwadu, neu hyd yn oed anwybyddu camdriniaeth. Mae hyn wedi ychwanegu at drawma a gofid y goroeswyr / dioddefwyr. Roedd hyn yn ganfyddiad o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol<sup>1</sup> (IICSA) ac yn arbennig yr adroddiad a'r ymchwiliad [Child protection in religious organisations and settings](#)<sup>2</sup>. Cafwyd galwad i sicrhau bod ymarfer a chefnogaeth yn cael eu newid yn sylweddol i wella profiad byw goroeswyr a dioddefwyr. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hymrwymiad i ymateb i'r rhai sy'n oroeswyr / dioddefwyr camdriniaeth mewn ffordd sensitif a thosturiol ac amlinellu sut y byddwn yn ymateb i ddatgeliadau o gam-drin a niwed.

**I bwy mae'r canllaw hwn yn berthnasol?** Sefydlwyd y Panel Diogelu Cydenwadol<sup>3</sup> (y Panel) yn 2001 gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru i'w cefnogi a'u cynghori mewn perthynas â phob agwedd o ddiogelu yn eu gwaith. Ni fydd yr enwadau yn cael eu henwi'n unigol trwy gydol y ddogfen hon ond cyfeirir atynt fel "y tri enwad". Mae canllawiau, polisïau a gweithdrefnau'r Panel yn berthnasol i'r tri enwad oni nodir yn benodol fel arall<sup>4</sup>.

## 2. Iaith/ terminoleg

Rydym yn cydnabod bod camdriniaeth yn bwnc sensitif iawn, yn enwedig i'r rhai sydd wedi profi'r boen a'r dioddefaint sy'n dod ag ef. Gall termau fel *goroeswr*, *dioddefwr*, *troseddwr* neu *gamdriniwr* gynnwys emosiynau a chysyniadau cryf. Efallai y bydd gan unigolion ddewisiadau personol ynglŷn â'r derminoleg a ddefnyddir, a dylid parhau hyn bob amser. Trwy gydol y ddogfen hon defnyddir y term goroeswr / dioddefwr i ddisgrifio pobl - gan gynnwys oedolion, plant a phobl ifanc sydd â phrofiad uniongyrchol o gamdriniaeth. Nod y term hwn yw cydnabod yr effeithiau a'r niwed parhaus a achosir gan gamdriniaeth yn ogystal ag anrhydeddu cryfder a gwytnwch pobl sydd â phrofiad byw o gamdriniaeth. Fodd bynnag, byddwn bob amser yn ymdrechu i ddefnyddio term a ddymunir gan unigolyn wrth gyfathrebu â nhw.

## 3. Datganiad o Fwriad

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol a'r "tri enwad" eisiau dysgu gwersi o'r gorffennol ac o IICSA ac maent wedi ymrwymo i ymateb i bob datgeliad o gamdriniaeth, yn ddiweddar neu'n hanesyddol, mewn modd sensitif a thosturiol. Felly, rydym yn datgan:

1. Byddwn bob amser yn ymdrechu i ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr mewn modd sensitif a thosturiol a sicrhau eu bod yn cael eu clywed, eu deall a'u cymryd o ddifri.
2. Byddwn yn darparu manylion am y cymorth sydd ar gael ac yn cynorthwyo goroeswr / dioddefwr i gael mynediad at gymorth priodol os mai dyna beth maen nhw'n dymuno.
3. Byddwn yn darparu gwybodaeth am sut i adrodd am gamdriniaeth o fewn yr Eglwys.
4. Bydd unrhyw ddatgeliad neu honiad o gamdrin diweddar neu'n hanesyddol rydym yn ei dderbyn yn uniongyrchol, neu yn dod yn ymwybodol ohono, yn cael ei gymryd o ddifri. Ni fyddwn byth yn diystyru unrhyw bryderon nac yn cuddio camdriniaeth neu gamdriniaeth honedig.
5. Byddwn, trwy hyfforddiant ac esiampl, yn hyrwyddo **Dylai diogelwch ac amddiffyn plentyn** neu oedolyn agored i niwed bob amser fod yn flaenoriaeth. Rydym yn dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol lleol a'r heddlu i wneud yr asesiadau priodol ynghylch diogelwch ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed; nid rôl yr eglwys yw hyn. Gall y cam allweddol hwn ond digwydd yn effeithiol pan fydd atgyfeiriadau perthnasol wedi eu gwneud mewn modd amserol.
6. <sup>5</sup> a diwylliant o wrando, tryloywder a pharch sy'n ei gwneud hi'n ddiogel i ddatgelu.

<sup>1</sup> [Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol | IICSA](#) Cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei Adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022 ac mae'n gwneud sawl argymhelliad pwerus, yn seiliedig ar ymchwiliadau ar wahân a chorff unigryw o ymchwil. Mae hefyd yn cynnwys lleisiau dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.

<sup>2</sup> Child protection in religious organisations and settings published by IICSA September 2021

<https://www.iicsa.org.uk/reports-recommendations/publications/investigation/cp-religious-organisations-settings.html>

<sup>3</sup> <https://panel.cymru/cy/amdanon-ni>

<sup>4</sup> [Gweler adran 7](#) tudalen 3

<sup>5</sup> [Gweler adran 6](#) tudalen 3

7. Os yw datgeliad neu honiad yn awgrymu bod plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth, ni fyddwn yn cadw hyn yn gyfrinach, hyd yn oed os yw'r person sy'n datgelu yn gofyn inni wneud hynny.
8. Byddwn yn gwneud atgyfeiriadau at asiantaethau statudol (gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu) fel y bo'n briodol.

#### 4. Ymateb i gamdriniaeth<sup>6</sup>

Gall camdriniaeth cael effaith ddifrifol a hirdymor ar unigolion a theuluoedd, ac rydym yn cydnabod y gall datgelu camdriniaeth, hyd yn oed ar ôl blynyddoedd lawer, fod yn broses drawmatig. Derbyniodd the Truth Project, 2019, a oedd yn rhan o IICSA, fewnbwn gwerthfawr gan bobl â phrofiad byw o gamdriniaeth. Maent yn pwysleisio'r angen am gymorth pan fydd goroeswyr yn datgelu camdriniaeth a bod angen i adnoddau, llinellau cymorth a rhwydweithiau cymorth fod ar gael ac yn hysbys mewn cymunedau ffydd, ochr yn ochr â chodi ymwybyddiaeth ehangach. Dylem i gyd fod yn ymdrechu i fabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma (gweler adran 6 isod) fel cam hanfodol tuag at greu amgylchedd mwy diogel i oroeswyr / dioddefwyr adrodd am gamdriniaeth neu gam-drin posibl, gan sicrhau eu hamddiffyniad a'u cefnogaeth.

Ein nod yw ymateb yn sensitif, ac yn effeithiol i'r rhai yr effeithir gan gamdriniaeth a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod llais y dioddefwr neu'r goroeswr yn cael ei wrando arno, ei glywed a'i ystyried. Mae'n ofynnol i'n holl weinidogion achrededig fynychu hyfforddiant diogelu rheolaidd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut i ymateb yn briodol ac yn sensitif i ddatgeliad. Darperir hyfforddiant hefyd i wirfoddolwyr.

Bydd ein hymateb i ddatgeliad o gamdriniaeth yn cynnwys cynorthwyo'r goroeswr / dioddefwr i gael mynediad at gymorth arbenigol<sup>7</sup> os dyma eu dymuniad. Ni fydd hyn byth yn cael ei orfodi ar unigolyn. Mae cwnsela neu waith therapiwtig gyda dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth yn faes arbenigol a dylid bob amser ei adael i'r rhai sydd wedi'u hyfforddi a chymhwysu'n briodol. Dylai eglwysi lleol barchu hyn, gan y gall problemau godi pan fydd unigolion, sydd â bwriad da ond yn ddibrofiad a heb eu hyfforddi, yn cymryd rôl "cwnsela" neu therapiwtig. [Yn Atodiad 1](#) ceir rhestr o sefydliadau sydd â phrofiad a hyfforddiant o gynig cymorth i'r rhai sydd wedi profi camdriniaeth.

Fodd bynnag, mae gan yr Eglwys gyfle unigryw i gynnig gweinidogaeth sensitif, fugeiliol ac amgylchedd cefnogol, gofalgar ac amddiffynnol i'r rhai yr effeithir gan gamdriniaeth. Rydym yn cydnabod y gall datgeliadau achosi sioc, trallod neu anghrediniaeth ac felly mae angen bod yn agored i glywed manylion gofidus a bod yn barod i "gredur anghredadwy". Mae angen cydnabod y gall camdriniaeth effeithio ar bobl yn wahanol ac arwain at safbwyntiau sy'n gymhleth, ac weithiau'n gwrthgyferbyniol. Gall hyn arwain at yr angen am ystod o ymatebion, o fewn a thu hwnt i eglwysi unigol.

Swyddog Diogelu'r Panel yw'r swyddog diogelu dynodedig ar gyfer Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, ac Eglwys Bresbyteraid Cymru. Mae llawer o ddatgeliadau yn cael eu rhannu i ddechrau gyda'r eglwys leol neu swyddfa ganolog yr enwad ac mae'r Panel yn dibynnu ar unigolion, gan gynnwys gweinidogion, cydlynwyr diogelu eglwysi, swyddogion ac aelodau'r eglwysi i ddod â'r pryderon hyn i sylw'r Panel yn brydlon. Ni ddylai eglwysi lleol nag enwadau gadw unrhyw bryderon a datgeliadau "yn fewnol". Mae ein holl hyfforddiant diogelu yn pwysleisio'r angen i adrodd am bryderon yn gynnar ac yn pwysleisio, os oes gennych amheuaeth, dylech bob amser ffonio am gyngor. Rydym yn pwysleisio nad oes gofyniad i gamdriniaeth nac esgeulustod fod wedi digwydd cyn penderfynu gweithredu. Mae'n ddigon i gael pryder neu amheuaeth er mwyn ceisio cyngor ac ni ddylai'r rhai sy'n adrodd ymchwilio i'r mater na cheisio cael tystiolaeth yn gyntaf. Mae methiant i adrodd am gamdriniaeth yn dramgwydd difrifol o'n polisiau a chanllawiau<sup>8</sup>.

#### 5. Atgyfeiriadau at wasanaethau statudol

Pan fydd datgeliad yn awgrymu bod plant neu oedolion bregus yn agored i niwed neu eu bod mewn perygl o gamdriniaeth neu niwed, bydd swyddog diogelu'r panel yn gwneud atgyfeiriad neu'n cefnogi'r eglwys i wneud atgyfeiriad i'r adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol neu'r heddlu. Bydd datgeliadau neu bryderon diogelu eraill a wneir yn uniongyrchol i un o'r tri enwad yn cael eu trosglwyddo i'r Panel ac ni fyddant yn cael eu rheoli'n fewnol. Ni fyddwn byth yn rhwystro nac yn atal adrodd priodol i awdurdodau statudol.

<sup>6</sup> [Gweler atodiad 2](#) a 3

<sup>7</sup> Nid yw'r Panel / y tri enwad yn gallu darparu gwasanaeth cymorth arbenigol mewnol i oroeswyr ond byddem yn cyfeirio unigolion at ddarparwyr arbenigol a gallent eu cynorthwyo a'u cefnogi i gael mynediad at y cymorth.

<sup>8</sup> <https://panel.cymru/cy/cyngor-a-chefnogaeth> ac [atodiad 2](#)



Nid rôl yr eglwys leol na'r enwad yw penderfynu a yw camdriniaeth wedi digwydd ai peidio, na asesu effaith bosibl na risg unrhyw ddatgeliad ar y dyfodol. Eu rôl yw adrodd am y pryder. Ni ddylai eglwysi lleol, gweinidog nac arweinydd eglwys gadw gwybodaeth am gamdriniaeth neu gamdriniaeth honedig yn fewnol yn yr eglwys ond dylent gysylltu â swyddog diogelu'r Panel neu Thirtyone:eight<sup>9</sup> am gyngor a chefnogaeth. Ni ddylai eglwys lleol nac enwad fyth beidio a gwneud atgyfeiriad er mwyn osgoi digio neu gythruddo unigolyn o fewn yr eglwys neu i amddiffyn enw da unigolyn neu sefydliad.

Wrth gydnabod pwysigrwydd maddeuant yn y ffydd Gristnogol a nodi y gall maddeuant fod yn bwysig ar daith rhai goroeswyr / dioddefwyr, ni fydd hyn byth yn cael ei orfodi ar unigolyn. Ni fydd chwaith yn cael ei ystyried fel dewis amgen i gefnogaeth nac atgyfeiriadau priodol at asiantaethau statudol a rhoi mesurau diogelu priodol mewn lle.

Dylai diogelwch ac amddiffyn plentyn neu oedolyn agored i niwed bob amser fod yn flaenoriaeth. Rydym yn dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol lleol a'r heddlu i wneud yr asesiadau priodol ynghylch diogelwch ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed; nid rôl yr eglwys yw hyn. Gall y cam allweddol hwn ond digwydd yn effeithiol pan fydd atgyfeiriadau perthnasol wedi eu gwneud mewn modd amserol.

## 6. Dull sy'n ystyriol o drawma

Byddwn yn hyrwyddo ac yn annog eglwysi i gymryd agwedd sy'n ymwybodol o drawma<sup>10</sup> sy'n rhan o ddull sy'n ystyriol o drawma<sup>11</sup>. Dylai hyn effeithio ar bob agwedd o fywyd yr eglwys yn ogystal â'n hymateb penodol i oroeswyr / dioddefwyr. Yn hytrach na dilyn set penodol o bolisiau a gweithdrefnau, mae dull sy'n ystyriol o drawma yn cadw at egwyddorion allweddol:

### Egwyddorion allweddol mewn dull sy'n ystyriol o drawma (o NAPAC):

1. **DIOGELWCH:** Mae hyn yn golygu ein bod yn anelu at wneud i bawb sy'n dod i gysylltiad â'n heglwys deimlo'n ddiogel. Mae'r lleoliad corfforol yn ddiogel, ac mae ymgysylltiadau rhyngpersonol yn hyrwyddo ymdeimlad o ddiogelwch.
2. **YMDDIRIEDAETH:** Rydym yn cynnal ein gweithgareddau gyda thryloywder ac yn anelu at adeiladu a chynnal ymddiriedaeth ymhlith staff, aelodau, yr holl ymwelwyr a'r rhai sy'n gysylltiedig â'n heglwys.
3. **CYDWEITHREDU:** Rydym yn gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth - ar draws yr Eglwys a'r Panel mewn modd anhierarchaidd.
4. **GRYMUSO:** Ein nod yw cydnabod ac adeiladu ar gryfderau a sgiliau unigolion a'u helpu i ddysgu rhai newydd.
5. **DEWIS:** Ein nod yw cynnig dewis priodol a chydabod bod profiad pob person yn unigryw ac yn gofyn am ymagwedd unigol. Cynnig cymorth sy'n rhoi rheolaeth, llais ac asiantaeth i oroeswyr / dioddefwyr.
6. **DIWYLLIANNOL:** Symud heibio stereoteipiau a rhagfarnau diwylliannol e.e. rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, crefydd, anabledd, daearyddiaeth, hil neu ethnigrwydd.

## 7. Sylwadau ychwanegol

Bydd y tri enwad sy'n ffurfio'r Panel yn ymdrechu i sicrhau bod y gweithdrefnau a nodwyd uchod ar gyfer delio â phryderon a chefnogi goroeswyr / dioddefwyr yn hysbys ac yn weithredol ar draws eu heglwys. Bydd y tair swyddfa ganolog yn cyfeirio pob achos diogelu at y Panel ac yn cynnig cymorth perthnasol a gofal bugeiliol fel yr argymhellir gan y Panel.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bod gan y tri enwad brosesau a gweithdrefnau llywodraethu a chyfreithiol gwahanol. Os bydd achos diogelu angen mewnbyn cyfreithiol, bydd yn gyfrifoldeb i'r enwad unigol i hwyluso hyn, nid y Panel Diogelu Cydenwadol. Wedi dweud hynny, bydd y Panel yn cael ei hysbysu am y prif benderfyniadau a datblygiadau mewn achosion o'r fath a bydd yn gwneud atgyfeiriadau ychwanegol at asiantaethau statudol mewn achos o bryderon ychwanegol neu wybodaeth newydd.

<sup>9</sup> Mae gan y Panel gytundeb gwasanaeth gyda Thirtyone:eight i alluogi eglwysi o'r tri enwad i gael mynediad i'w [LLINELL GYMORTH DIOGELU](#) pan nad yw swyddogion y Panel ar gael ac y tu allan i oriau 0303 003 1111

<sup>10</sup> Mae dull sy'n ystyriol o drawma yn rhan 1 o ddull sy'n seiliedig ar drawma. Mae'n herio canfyddiadau sy'n cynnal gormes ac anghydraddoldeb ac yn tynnu sylw at y ffaith bod gan bobl ym mhob cymuned rôl i'w chwarae wrth atal ACEs, adfyd a thrawma a chefnogi gwytnwch trwy gysylltiad, cynhwysiant a thosturi. <https://traumaframeworkcymru.com/>

<sup>11</sup> [Ymarfer sy'n seiliedig ar drawma: beth ydyw a pham mae NAPAC yn ei gefnogi – NAPAC](#)

Atodiad 1: CYMORTH I OROESWYR, DIODDEFWYR A'R RHAI SYDD WEDI DIODDEF CAMDRINIAETH gweler hefyd <https://panel.cymru/cy/survivors-victims>

**ACTION ON SPIRITUAL ABUSE** (Replenished Life yn gynt): elusen gynhwysol ac aml-ffydd sydd wedi'i lleoli yng Nghymru. Mae'n cynnig cymorth a gwybodaeth ynglŷn â cham-drin a thrawma o fewn sefydliadau ffydd, gan gynnwys llinell gymorth. Maent yn anelu at sicrhau bod pawb sy'n profi niwed mewn lleoliad ysbrydol yn derbyn cefnogaeth o ansawdd uchel, gan sefydliadau sydd wedi'u paratoi'n dda i ddarparu'r gefnogaeth.

<https://www.actiononspiritualabuse.org.uk/>

**SURVIVORS VOICES:** Sefydliad sy'n cael ei arwain gan oroeswyr sy'n troi'r poen o gam-drin yn rym i wella ymatebion i drawma. Maent yn gweithio gyda goroeswyr o bob math o gamdriniaeth. Maent i gyd yn 'arbenigwyr yn ôl profiad,' cymuned o wirfoddolwyr, gweithwyr llawrydd, gweithwyr a chynghorwyr o amrywiaeth o gefndiroedd. Ein gweledigaeth yw cymdeithas fwy diogel gyda chefnogaeth i oroeswyr sy'n sensitif i oroeswyr, yn rymusol i oroeswyr ac yn wasanaethau sy'n deall ac yn ymwybodol o drawma. <https://survivorsvoices.org/>

**MACSAS:** (Ministry and Clergy Sexual Abuse Survivors) yn cefnogi pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant neu oedolion, gan weinidogion, clerigwyr neu eraill o fewn yr Eglwys. Maent yn cefnogi'r rheiny sydd wedi gadael neu barhau â'u cymunedau Cristnogol. Llinell gymorth am ddim 08088 01 03 40 (Mercher 7-9.30 neu Sadwrn 9-11am).

[www.macsas.org.uk/](http://www.macsas.org.uk/)

**THE SURVIVORS TRUST:** yn asiantaeth ymbarél genedlaethol ledled y DU ar gyfer [120 o sefydliadau arbenigol](#) sy'n cynnig cefnogaeth i helpu gydag effaith trais rhywiol a thrais a cham-drin rhywiol yn ystod plentyndod. <https://www.thesurvivorstrust.org/>

**NAPAC:** (National Association for People Abused in Childhood)

yn cynnig cymorth i oedolion sy'n goroesi bob math o gamdriniaeth plant, gan gynnwys camdriniaeth gorfforol, rywiol, emosiynol neu esgeulustod. Llinell gymorth am ddim o linellau ffôn a ffonau symudol 0808 801 0331 (Llun-lau 10am-9pm & Gwener 10am-6pm) *Ni fydd y galwadau yn ymddangos ar eich bil ffôn* <https://napac.org.uk/>

**CERRIG CAMU / STEPPING STONES:** elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaethau therapiwtig i oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant ar draws gogledd Cymru.


<https://www.stepsstonesnorthwales.co.uk/>

**Safe in Faith:** Prosiect o Caritas Westminster sy'n gweithio i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a cham-fanteisio mewn ffyrdd sy'n deall sut mae eu ffydd yn effeithio ar eu profiadau. Er bod hwn yn sefydliad Catholig, wedi'i seilio ar werthoedd Addysgu Cymdeithasol Catholig, maent yn gweithio gyda phobl o wahanol grefyddau. Tyfodd y prosiect allan o'r Gweithgor Cam-drin Domestig o Gynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr, a gwaith o Caritas Westminster a Bwrdd Cenedlaethol Menywod Catholig.

<https://caritaswestminster.org.uk/safe-in-faith/>

## Atodiad 2:

### GROESWR /DIODDEFWR: SUT I ADRODD AM GAMDRINIAETH NEU BRYDERON DIOGELU DIWEDDAR NEU HANESYDDOL



## Atodiad 3: SUT I YMATEB I BRYDER

- 1 • Os fydd camdriniaeth yn cael ei amau neu ei ddatgelu i chi gwrandewch yn ofalus, peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol
- 2 • Credwch y gall cam-driniaeth ddigwydd a pheidiwch byth ag anwybyddu greddf neu gadw camdriniaeth yn gyfrinach
- 3 • Cofnodwch eich pryderon/trafodaeth mor fuan ag sy'n posibl
- 4 • Rhannwch eich pryderon gyda'ch person diogelu dynodedig<sup>12</sup> mor fuan ag sy'n posibl
- 5 • Mewn argyfwng ffoniwch 999 yn syth
- 6 • Peidiwch ag ymchwilio neu wynebu'r tramgwyddwr honedig eich hun
- 7 • Rhowch wybod i'r unigolyn rydych yn pryderu amdano beth fydd yn digwydd nesaf os yw hynny yn bosibl neu'n addas. Cymerwch cyngor gan y person diogelu dynodedig
- 8 • Cadwch eich gwybodaeth am bolisiau a gweithdrefnau diogelu'r eglwys yn gyfredol

12

Ymateb i bryder cerdyn 2 ochr [https://panel.cymru/images/leaflet\\_27-03-24\\_cym.pdf](https://panel.cymru/images/leaflet_27-03-24_cym.pdf):

Os ydych yn CLYWED, GWELD neu AMAU bod PLENTYN, PERSON IFANC neu OEDOLYN BREGUS wedi dioddef, neu mewn perygl o dioddef CAMDRINIAETH, ESGEULUSTOD neu NIWED

 **GWNEWCH NODIADAU MANWL** o'r hyn a ddywedwyd, neu yr hyn a welsoch neu'r hyn rydych yn ei amau

**999** Os bydd rhywun mewn PERYGL DYBRYD: Cysylltwch â'r heddlu neu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol ar ddyletswydd heb oedi

**POB PRYDER ARALL CEISIWCH GYNGOR**

 **SWYDDOG DIOGELU Y PANEL: 07957510346**  
Am gyngor tu allan i oriau swyddfa:  
**THIRTYONE:EIGHT : 0303 003 1111**

 Neu ewch i'n gwefan am fwy o ffynonellau cymorth <https://panel.cymru/cy/cyngor-a-chefnogaeth>

**cyngor** **OS YDYCH YN AMAU — FFONIWCH AM GYNGOR**  
Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn gweithredu neu bod y sefyllfa ddim digon difrifol i weithredu. Nid rôl chi na'r eglwys ydy penderfynu a yw camdriniaeth wedi digwydd

 Ym mhob achos gadewch i'r Panel Diogelu Cydenwadol wybod am y sefyllfa a'r camau rydych wedi'u cymryd

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa **Gofynnwch am gynor**

Yn ystod oriau swyddfa cyswlltwch â swyddogion y Panel :

**01745 817584 / 07957 510346**  
post@panel.cymru\* <https://panel.cymru>

 Panel Diogelu Cydenwadol  
Interdenominational Safeguarding Panel

 Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus

Am gyngor brys tu allan i oriau swyddfa  
**0303 003 1111**

 **thirtyone:eight**  
Creating safer places. Together.

Mae gan y Panel gytundeb cymorth y tu allan i oriau swyddfa gyda thirtyone: eight sy'n cynnwys nosweithiau 5-12pm, 7-9am, penwythnosau a gwyliau banc. Cysylltwch â'u llinell gymorth diogelu am gyngor.  
Peidiwch â defnyddio'r llinell yma am ymholiadau DBS

\*Peidiwch ag eostio ymholiadau diogelu brys

<sup>12</sup> Swyddog diogelu y Panel ydy'r person diogelu dynodedig y tri enwad